# Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

## Cylchlythyr

Rhifyn 62 Tymor Hydref 2025

## Yn y rhifyn hwn :


| | |
|---|---|
| Nodyn gan y Cadeirydd | 2 |
| Cyflwyno Tîm Gwella Ysgolion Bro Morgannwg | 3 |
| Consortiwm Canolbarth y De (CCD) – Diweddariad a Gwybodaeth | 4 |
| Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru; Adolygiad o Gyrff Llywodraethu | 6 |
| Canllawiau wedi'u hadnewyddu i Gyrff Llywodraethu ar sefydlu a gweithredu cynghorau ysgol | 8 |
| | 10 |
| Y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau – Diweddariad Tymor yr Hydref | 11 |
| Lansio cyfeiriadur Eco-ysgolion Bro Morgannwg` | 13 |
| Dyddiadau Gwyliau Ysgol | 15 |
| Gwybodaeth am yr uned Cymorth i Lywodraethwyr a Chymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro | 17 |




VALE of GLAMORGAN

BRO MORGANNWG

# Nodyn gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Mae'n gyfnod heriol i fod yn Llywodraethwr Ysgol yng Nghymru yn gyffredinol, ac ym Mro Morgannwg yn arbennig. Gwnaeth y nifer uchaf erioed o lywodraethwyr wrando ar sesiwn Friffio Addysg Llywodraethwyr Ysgolion y Fro yn gynnar ym mis Rhagfyr. Gwelon nhw gyflwyniad ar gyflwr enbyd cyllid ar gyfer ysgolion. Os gwnaethoch chi ei golli, gallwch wylio cyflwyniad perthnasol gan y Pwyllgor Craffu Dechrau'n Dda ar wefan y Fro.

I grynhoi, y sefyllfa yng Nghymru gyfan yw bod hanner yr ysgolion uwchradd a thraean o ysgolion cynradd mewn sefyllfa o ddiffyg y flwyddyn ariannol hon. Yn y Fro mae'r ffigurau'n waeth - mae tri chwarter yr ysgolion uwchradd a dwy ran o dair o ysgolion cynradd mewn sefyllfa o ddiffyg. Mae hon yn broblem fawr i Gyngor Bro Morgannwg, gan fod ysgolion yn cynrychioli deugain y cant o gyllideb gyffredinol y Cyngor. Mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn gyfyngedig, ac yn mynd i lawr.

Mae llywodraethwyr ar y rheng flaen, oherwydd nhw yn y pen draw sy'n llofnodi'r cynllun adfer ar gyfer adennill y diffyg dros nifer o flynyddoedd, ac maent hefyd yn gyfrifol am ddatblygu cyllideb realistig ar gyfer eu hysgolion ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Byddwch yn ymwybodol o'r straen ar eich Penaethiaid a'ch staff uwch wrth iddynt geisio gwneud yr amhosib o ddarparu addysg ddigonol a diogel i'r disgyblion dan eich gofal, pan nad oes digon o arian i'w rannu rhwng pawb. Mae help a chymorth ar gael gan staff y Fro, ond mae angen i lywodraethwyr ofalu am les staff ymroddedig sydd dan bwysau.

Mae etholiad Senedd Cymru ar y gweill ym mis Mai 2026. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn cwestiynau ymchwilgar i'r rheini sy'n ceisio eich pleidlais. Dylai cyllid gweddus i ysgolion yng Nghymru fod yn flaenoriaeth uchel mewn maniffestos ac yn hanfodol i'r Llywodraeth newydd.

Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi er gwaethaf yr helyntion ariannol.

**Dr Martin Price**

**Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro ac Is-gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, Y Barri**



Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

Cylchlythyr

Rhifyn 62 Tymor Hydref 2025

# Tîm Gwella Ysgolion




Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd hon, ymunodd ein Tîm Gwella Ysgolion newydd â ni o Gonsortiwm Canolbarth y De.

Carys Pritchard **(cpritchard@valeofglamorgan.gov.uk),** sy'n arwain y tîm, y bydd llawer ohonoch eisoes yn ei hadnabod trwy'r Sesiynau Diweddariadau Addysg a Briffio. Yn ymuno â Carys mae pedwar Swyddog Gwella Ysgolion, pob un yn gweithio'n agos gyda grŵp o ysgolion:

- **Jude Davies (e-bost: judavies@valeofglamorgan.gov.uk)** Cefnogi Ysgol Gynradd Ynys y Barri, Ysgol Gynradd High Street, Ysgol Gynradd Romilly, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd Palmerston, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Gwenfo, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru yr Holl Saint, Ysgol Gynradd Gatholig St Helen, Ysgol Gynradd Gatholig St Andras, Ysgol Gynradd Gatholig St Joseph, Ysgol Gynradd Cogan, Ysgol Gynradd Fairfield, Ysgol Gynradd Evenlode, Ysgol Gynradd Llandochau ac Ysgol Gynradd Dinas Powys.
- **Carys Amos (e-bost: croberts-amos@valeofglamorgan.gov.uk)** Cefnogi Ysgol Pen y Garth, Ysgol Sant Baruc, Ysgol Iolo Morganwg, Ysgol Sant Curig, Ysgol Gynradd Gwaun y Nant, Ysgol Gymraeg Dewi Sant, Ysgol Llanilltud Fawr, Ysgol Gyfun St Cyres, Ysgol Uwchradd Whitmore, Ysgol Uwchradd Pencoedtre, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, Ysgol Stanwell, Ysgol y Bont-faen, Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ac Ysgol y Deri.
- **Sue Prosser (e-bost: sjprosser@valeofglamorgan.gov.uk)** Cefnogi Ysgol Gynradd Colcot, Ysgol Gynradd Holltwn, Ysgol Gynradd Parc Jenner, Ysgol Gynradd Tregatwg, Ysgol Gynradd Oakfield, Ysgol Gynradd Albert, Ysgol Gynradd Sili, Ysgol Gynradd Fictoria, Ysgol Gynradd Sain Tathan, Ysgol Gynradd Sant Illtud, Ysgol y Ddraig ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes.
- **Julie Ann Morgan (e-bost: juliemorgan@valeofglamorgan.gov.uk)** Cefnogi Ysgol Gynradd South Point, Ysgol Gynradd Llanfair, Ysgol Gynradd Llan-gan, Ysgol Gynradd Y Bont Faen, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Nicholas, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr-y-Fro, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffraid, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pendeulwyn, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant ac Ysgol Gynradd Rhws.

*Mae'r swyddogion eisoes yn ymgysylltu'n weithredol ag ysgolion a byddant yn chwarae rôl allweddol wrth ddarparu hyfforddiant llywodraethwyr ledled Bro Morgannwg.*

# Consortiwm Canolbarth y De – Diweddariad a Gwybodaeth

Consortiwm Canolbarth y De (CCD) bellach yw gwasanaeth comisiwn awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, a Bro Morgannwg, ac mae'n darparu dysgu proffesiynol (DP) a chefnogaeth i ysgolion ledled y rhanbarth, gyda chytundeb comisiynu wedi'i gwblhau gan yr ALlau ledled y rhanbarth i ddiwallu anghenion lleol. Mae CCD hefyd wedi'u comisiynu i gefnogi swyddogaethau statudol ac ychwanegol mewn ALlau gan gynnwys Sefydlu ANG, Addysg Awyr Agored a CYSAG / CYS.

**Dysgu Proffesiynol a Chymorth Cenedlaethol**
Bydd yr ysgol yn gallu cael mynediad at ddysgu proffesiynol (DP) cenedlaethol, a chymorth ac adnoddau mewn meysydd penodol gan ystod o ddarparwyr, gan gynnwys: Dysgu (y corff cenedlaethol newydd), Llywodraeth Cymru (Rhaglenni Cenedlaethol), Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Adnodd, DARPL a Rhaglen Cymorth Grant y Cwricwlwm i Gymru. Bydd CCD yn gweithio mewn partneriaeth â'r sefydliadau hyn i sicrhau cydlyniant o ran darparu dysgu proffesiynol pwrpasol i fynd i'r afael ag anghenion rhanbarthol a lleol penodol.

**Cynnig Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol**
Bydd gan CCD ffocws ar gylch gwaith llai ond targedig, ac yn darparu dysgu a chefnogaeth broffesiynol yn y meysydd canlynol o fewn y continwwm 3–16 ac addysg ôl-16:

- Addysgu a dysgu, e.e. asesu ar gyfer dysgu, effeithiolrwydd dysgwr, ac ati.
- Dylunio'r cwricwlwm a dilyniant
- Chwe Maes Dysgu a Phrofiad a'u pynciau/disgyblaethau (Meysydd)
- Tair sgil trawsgwricwlaidd
- Cymwysterau'n gysylltiedig â'r uchod
- Addysg Awyr Agored
- Cymraeg
- Arweinyddiaeth ar bob lefel
- Sefydlu ANG
- Cynorthwywyr addysgu

Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium

Mae'r cynnig DD rhanbarthol ar gyfer y Tymor Hydref bellach ar gael i'w bori a'i archebu ar wefan newydd CSC – www.CSC.cymru. Mae'r Casgliad Dysgu Proffesiynol a Chymorth CSC bellach yn fyw ar y wefan ac mae copïau wedi'u danfon i'r ysgolion. Mae'r Casgliad yn cynnwys manylion am y cynnig DP rhanbarthol gyda dolenni i archebu lle ar y rhaglenni, y digwyddiadau a'r rhwydwaith, yn ogystal â dolenni i adnoddau a chymunedau ar-lein CSC.

### Cymorth Pwrpasol

Yn ogystal â'r cynnig sydd wedi'i gyhoeddi, bydd ysgolion yn gallu cael mynediad at gymorth pwrpasol ar gais. Gall y gefnogaeth bwrpasol hon fod ar sawl ffurf wahanol:

- Sesiynau hyfforddi a mentora untro gydag arweinwyr ysgol a/neu ymarferwyr, gyda ffocws ar un o feysydd penodol gwella ysgolion.
- Cyfuniad o DP wedi'i gyflwyno mewn ysgolion, er enghraifft fel diwrnodau HMS neu sesiynau gyda'r hwyr.
- Cyfres o sesiynau DP a chymorth pwrpasol wedi'i chytuno mewn partneriaeth â'r ysgol a'r swyddog gwella ysgolion gyda ffocws ar flaenoriaeth gwella benodol.

**Nid oes unrhyw gost i ysgolion am y dysgu proffesiynol a'r gefnogaeth a ddarperir gan CCD. Fodd bynnag, ysgolion sy'n gyfrifol am unrhyw gostau cyflenwi.**

# Adolygiad o gyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru – cylch gorchwyl

Mae gan gyrff llywodraethu yng Nghymru ystod eang ac amrywiol o gyfrifoldebau sy'n cael eu nodi mewn deddfwriaeth ac yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Maent yn chwarae rhan ganolog yn y system ysgol, gan gefnogi dysgwyr a staff ysgolion. Mae'r system ysgolion yng Nghymru wedi gweld newidiadau enfawr dros y degawd diwethaf, gyda dyletswyddau ychwanegol neu ddiwygiedig yn cael eu gosod ar gyrff llywodraethu, ond nid yw rôl cyrff llywodraethu ysgolion wedi newid mewn unrhyw ffordd sylfaenol

Mae awdurdodau lleol a Chomisiynydd Plant Cymru wedi galw am adolygiad o gyrff llywodraethu yng Nghymru

**Ym mis Hydref 2025, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg adolygiad o gyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru ac mae'r amodau cyfeirio wedi'u manylu isod er mwyn rhoi gwybodaeth i chi.**

Bydd adolygiad o gyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru yn cael ei gynnal gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Bydd yr adolygiad yn cael ei gefnogi gan grŵp cyfeirio i ddarparu gwybodaeth, barn a chyngor. Bydd yn:

- ystyried canfyddiadau ac argymhellion gwaith blaenorol a wnaed yn y maes hwn, gan gynnwys adolygiad thematig Estyn yn 2023
- darparu cyngor a her ar gwmpas, methodoleg a chanfyddiadau ac opsiynau sy'n dod i'r amlwg
- gweithredu fel ffrind beirniadol, gan sicrhau bod yr adolygiad yn gytbwys, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn adlewyrchu safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol
- sicrhau bod aelodau'n cynrychioli safbwyntiau eu sector/sefydliad ac yn cyfrannu at gonsensws
- cefnogi cydlyniant a hygrededd argymhellion, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â diwygiadau addysg ehangach
- cyfrannu at nodi risgiau, cyfleoedd a goblygiadau ymarferol ar gyfer gweithredu.

### Cwmpass

Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar effeithiolrwydd, atebolrwydd, priodoldeb a mecanweithiau cymorth cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys sut mae hyn wedi'i nodi mewn deddfwriaeth. Wrth wneud hynny, ac wrth edrych ar yr ystod lawn o gyfrifoldebau a roddir i gyrff llywodraethu, bydd y themâu canlynol yn cael eu trafod:

**Strwythur a rolau**

- Cyfansoddiad y cyrff llywodraethu (cynrychiolaeth rhieni, staff, cymuned, enwebai o'r awdurdod lleol, ac ati)
- Eglurder a phriodoldeb rolau a chyfrifoldebau rhwng llywodraethwyr, penaethiaid ac awdurdodau lleol

**Effeithiolrwydd ac effaith**

- Sut mae cyrff llywodraethu yn cyfrannu at godi safonau addysgol
- Ansawdd yr her a'r gefnogaeth a ddarperir i arweinwyr ysgol
- Effaith ar welliant ysgolion a chanlyniadau dysgwyr

**Cymorth a hyfforddiant**

- Argaeledd, hygyrchedd ac effeithiolrwydd hyfforddiant a chanllawiau i lywodraethwyr
- Ansawdd y clercio a'r cymorth gweinyddol
- Cysondeb y cymorth ar draws gwahanol awdurdodau lleol a rhanbarthau

**Atebolrwydd a goruchwylio**

- Cydymffurfio â dyletswyddau statudol (diogelu, cyllid, cwricwlwm, cynhwysiant)
- Sut mae cyrff llywodraethu yn cael eu dal i gyfrif gan awdurdodau lleol, Estyn a Llywodraeth Cymru

**Recriwtio a chadw staff**

- Y broses ar gyfer recriwtio llywodraethwyr (gan gynnwys amrywiaeth a chynrychiolaeth)
- Cadw staff, llwyth gwaith a rhwystrau i gyfranogiad effeithiol

**Arferion gorau ac arloesedd**

- Enghreifftiau o gyrff llywodraethu perfformiad uchel ac arferion arloesol
- Cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng ysgolion a chyrff llywodraethu

**Yr amserlen**

Rhagwelir y bydd yr adolygiad yn cymryd tua 6-9 mis gyda'r nod o ddarparu adroddiad i Weinidogion Cymru erbyn haf 2026.

# Canllawiau i Gyrff Llywodraethu ar sefydlu a gweithredu cynghorau ysgol

**(Mae'r canllawiau hyn wedi'u diweddaru, ond nid ydynt yn gosod unrhyw ofynion ychwanegol ar ysgolion)**

## Sefydlu cynghorau ysgol

Mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru, ac eithrio ysgolion meithrin a babanod a gynhelir, sefydlu cyngor ysgol. Mae dyletswydd ar y pennaeth i sicrhau bod y cyngor yn cyfarfod o leiaf chwe gwaith bob blwyddyn academaidd a bod y cyfarfodydd hyn yn digwydd yn rheolaidd lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn helpu i gadw'r cyngor yn weithredol ac yn sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd mynych i godi problemau a thrafod syniadau.

## Aelodaeth cynghorau ysgol ac ethol aelodau

Rhaid i aelodaeth cyngor ysgol gynnwys disgyblion cofrestredig yn unig, gydag o leiaf un cynrychiolydd etholedig o bob grŵp blwyddyn o Flwyddyn 3 ac uwch. Rhaid cynnal etholiadau trwy bleidlais gyfrinachol, gyda phob disgybl yn pleidleisio dros ymgeiswyr yn eu grŵp blwyddyn eu hunain, gan sicrhau nad yw staff a llywodraethwyr yn dylanwadu ar bwy sy'n cael eu dewis. Dylai cynghorau adlewyrchu amrywiaeth yr ysgol a bod yn wirioneddol gynrychioliadol o'r holl ddysgwyr.

Rhaid i ysgolion sydd â chanolfan adnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) hefyd gynnwys o leiaf un disgybl o'r ganolfan honno, wedi'i benodi mewn modd sensitif er mwyn hyrwyddo cynhwysiant ac osgoi stigmateiddio. Er nad oes rheolau ynghylch maint y cyngor nac amseriad etholiadau, mae llawer o ysgolion yn dewis cynnal etholiadau

## Materion i'w hystyried gan gynghorau ysgol

Nid yw'r rheoliadau yn nodi beth y dylai cynghorau ysgol ei ystyried. Fodd bynnag, mae materion a allai fod o ddiddordeb yn cynnwys:

- Gwelliannau i amgylchedd yr ysgol
- Datblygu adnoddau a chyfleusterau
- Amrywiaeth a chynhwysiant
- Gwelliannau o ran dysgu

## Ymgysylltu â disgyblion, y pennaeth a'r corff llywodraethu

Mae cyngor ysgol yn cynnig fforwm i ddysgwyr drafod materion sy'n ymwneud â'u hysgol, eu haddysg neu unrhyw faterion y maen nhw'n teimlo sy'n bwysig, gan roi llais ystyrlon iddynt mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'n cynnig ffordd gynhwysol a chynrychioliadol i ddisgyblion ddwyn materion at sylw'r pennaeth a'r corff llywodraethu. O dan y rheoliadau, rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu ystyried unrhyw faterion a gyflwynir gan y cyngor ysgol a darparu ymateb

## Adnoddau ar gyfer cynghorau ysgol

Gall y corff llywodraethu a'r pennaeth ddarparu adnoddau i'r cyngor ysgol i gefnogi ei waith, gan roi statws iddo a'i helpu i weithredu'n effeithiol. Gall yr adnoddau hyn fod ar ffurf cymorth corfforol, cymorth ariannol neu staff. Argymhellir bod cyfansoddiad y cyngor ysgol yn nodi rheolau clir ar gyfer sut mae defnyddio adnoddau. O dan y rheoliadau, rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu ystyried unrhyw gais am adnoddau gan y cyngor ysgol, a rhaid iddynt roi ymateb.

## Cyswllt disgyblion-lywodraethwyr cyswllt a chyngor ysgol â'r corff llywodraethu

Rhaid i'r pennaeth ganiatáu i'r cyngor ysgol enwebu un neu ddau aelod o Flynyddoedd 11–13 i wasanaethu fel disgybl-lywodraethwyr cyswllt. Rhaid i'r corff llywodraethu benodi'r enwebeion hyn oni bai bod rhesymau dros eu gwahardd o dan Atodlen 5 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

Mae disgybl-lywodraethwyr cyswllt yn gweithredu fel cyswllt rhwng y cyngor ysgol a'r corff llywodraethu, gan rannu barn dysgwyr a bwydo gwybodaeth yn ôl i'r cyngor. Rhaid i'r corff llywodraethu ystyried unrhyw faterion a godir gan y cyngor ysgol a darparu ymateb, gan gynnwys atebion ysgrifenedig pan gyflwynir materion yn ysgrifenedig.

*I gael rhagor o wybodaeth am ganllawiau Llywodraeth Cymru i gyrff llywodraethu ar sefydlu a gweithredu cynghorau ysgol, cliciwch **yma.***



Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

Cylchlythyr

Rhifyn 62 Tymor Hydref 2025

# Gwrth-hiliaeth – Diweddariad a Hyfforddiant Llywodraethwyr

DARPL

Rydym yn ddiolchgar iawn i un o'n Llywodraethwyr, Leon Andrews (Ysgol Gynradd Evenlode) sydd wedi bod yn ddigon caredig i gyflwyno hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth i sawl corff llywodraethu a rhieni eleni ar ran DPAGh (Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth) – cymuned maes a sefydlwyd yn 2021 sydd wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i sefydlu ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. DPAGh – Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth

DPAGh yw'r prif sefydliad yng Nghymru o ran dysgu ac arweinyddiaeth broffesiynol gwrth-hiliol feirniadol. Maen nhw'n cynnal **Gweithdy Llywodraethwyr DPAGh ddydd Mawrth 3 Chwefror 2026 17:00-19:00** a gallwch gadw lle trwy eu calendr ar-lein yma Calendr DPAGh . Efallai y bydd angen i chi fewngofnodi/cofrestru i DPAGh i gadw lle ar y sesiwn. Byddwn hefyd yn cynnig cyfle i Lywodraethwyr fynychu sesiwn hyfforddi DPAGh fel rhan o'n Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr Bro Morgannwg ym mis Mawrth 2026. Bydd manylion pellach ar gael yn y Flwyddyn Newydd.

Bydd gweithdy y Llywodraethwyr yn datgelu gwrth-hiliaeth ac yn archwilio camau y gellir eu cymryd ar lefel uwch strategol. Mae'r sesiwn yn edrych ar ddiwylliant sefydliadol, effaith hiliaeth ar les a bywydau pobl Ddu, Asiaidd a phobl Ethnig Leiafrifol eraill ac ar bolisïau a gweithdrefnau a allai effeithio'n andwyol ar y rhai o gefndiroedd nad ydynt yn Wyn. Mae'n bwysig bod gwrth-hiliaeth yn cael ei sbarduno ar lefel strategol, er mwyn sicrhau bod pob lleoliad addysgol yn effeithio ar newid cadarnhaol a gwelliant.



# Diweddariad Dysgu a Sgiliau Tymor yr Hydref

Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid o £70m ar gyfer Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar ledled Cymru. Diben y cyllid cyfalaf hwn yw cefnogi a gwella'r seilwaith gofal plant a Dechrau'n Deg presennol. Prif amcanion y rhaglen gyfalaf yw sicrhau bod y sector gofal plant yng Nghymru yn cael ei gryfhau ac yn cefnogi'r rhaglen ar gyfer ymrwymiadau Llywodraeth Cymru.

Mae cipolwg ar rai o'r prosiectau yr ydym wedi bod yn eu datblygu ar safleoedd Ysgolion i ddarparu rhagor o ofal plant ledled y Fro yn cynnwys:

**Cylch Meithrin Pen-y-Garth, Penarth-** Cytunwyd cynlluniau arfaethedig i ddarparu ar gyfer 30 o leoedd cofrestredig ac o bosibl darparu ar gyfer gofal sesiynol, gofal dydd llawn a gofal cofleidiol. Cyflwynwyd yr achos busnes i Lywodraeth Cymru ar 24 Mehefin 2025.



**Adnewyddu Ysgol Tregatwg**- Contractwyr yn dechrau ar y safle ar 27 Mehefin a bydd y gwaith yn para tan fis Rhagfyr 2025. Bydd yr adeilad yn darparu ar gyfer y cynnig 2 oed a chynnig gofal plant. Rhagwelir y bydd y lleoliad penodedig wedi'i gomisiynu yn gweithredu rhwng 8.00am-6.00pm.



## Bumblebees, estyniad Colcot

Dechreuodd contractwyr ar y safle ar 4 Awst 2025 ac mae disgwyl iddynt gwblhau erbyn 9 Hydref 2025.

Bydd yr estyniad yn darparu ar gyfer plant 1-2 oed a fydd yn rhyddhau lleoedd gofal plant i blant dwy/tair oed yn y prif adeilad.

Bydd y lleoliad yn parhau i gael ei redeg gan Little Inspirations ac yn parhau i gael ei alw'n 'Bumblebees.'





Ar gyfer unrhyw ymholiadau am unrhyw un o'r uchod, cysylltwch â Claire yn: cmhaydon@valeofglamorgan.gov.uk

**Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro**

**Cylchlythyr**

Rhifyn 62 Tymor Hydref 2025

# Lansio Eco-gyfeiriadur Ysgolion Bro Morgannwg

Rydym yn llawn cyffro i gyhoeddi lansio ein **Eco-gyfeiriadur**—adnodd cynhwysfawr sydd wedi'i gynllunio i helpu ysgolion i ddod yn fwy cynaliadwy wrth leihau costau gweithredol.

Mae'r cyfeiriadur yn canolbwyntio ar naw maes hanfodol cynaliadwyedd, gan ddarparu arweiniad ymarferol, cyflenwyr dibynadwy, ac awgrymiadau y gellir eu gweithredu:

- **Adrodd ar Garbon:** Offer a chyngor i fesur, monitro a lleihau ôl troed carbon eich ysgol.
- **Effeithlonrwydd Ynni:** Strategaethau sydd wedi eu profi i leihau'r defnydd o ynni a lleihau biliau trydan/nwy/dŵr.
- **Cadwraeth Dŵr:** Camau ymarferol i leihau'r defnydd o ddŵr a chostau cysylltiedig.
- **Rheoli Gwastraff:** Atebion ar gyfer ailgylchu, ailddefnyddio a lleihau gwastraff.
- **Teithio:** Syniadau a chefnogaeth i hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy i staff a myfyrwyr.
- **Bwyd**: Canllawiau ar ddewisiadau bwyd iach a chynaliadwy.
- **Mannau Gwyrdd a Bioamrywiaeth**: Mentrau i greu mannau gwyrddach a chefnogi bywyd gwyllt lleol.
- **Buddion Cymunedol:** Ffyrdd o ymgysylltu â rhieni, myfyrwyr, a'r gymuned leol mewn ymdrechion cynaliadwyedd.
- **Adeiladau Sero Net Newydd:** Gwybodaeth am ddylunio ac adeiladu cyfleusterau ynni-effeithlon, sy'n addas i'r dyfodol.

Yn ogystal, mae'r Eco-Gyfeiriadur yn cynnwys manylion am gyllid a grantiau sydd ar gael i gefnogi eich prosiectau cynaliadwyedd, yn ogystal â Chalendr o Ddigwyddiadau - amserlen drwy'r flwyddyn o ddigwyddiadau cynaliadwyedd ac amgylcheddol allweddol. Mae'r gweithgareddau hwyliog, addysgol hyn yn caniatáu i ysgolion gymryd rhan weithredol, yn ysbrydoli myfyrwyr ac yn dathlu cynnydd.

Os mai lleihau costau, gwella effaith amgylcheddol, neu gryfhau ymgysylltiad cymunedol yw eich nod, mae'r adnodd hwn yn darparu popeth sydd ei angen arnoch i gymryd camau ystyrlon.

Dechreuwch archwilio heddiw a chymryd y cam cyntaf tuag at ddyfodol gwyrddach i'ch ysgol.



# Dyddiadau Gwyliau Ysgol 2026/2027

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd | Nifer Y Diwrnodau Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Dechrau | Diwedd | | |
| Hydref 2026 | Maw 1 Medi 2026 | Llun 26 Hyd 2026 | Gwen 30 Hydd 2026 | Gwen 18 Rhag 2026 | 74 |
| Gwanwyn 2027 | Llun 4 Ion 2027 | Llun 8 Chwef 2027 | Llun 12 Chwef 2027 | Gwen 19 Maw 2027 | 50 |
| Haf 2027 | Llun 5 Ebrill 2027 | Llun 31 Mai 2027 | Gwen 4 Meh 2027 | *Maw 20 Gorff 2027 | 71 |
| | | | | CYFANSWM | **195** |

i) Bydd **dydd Mawrth 1 Medi 2026, *dydd Llun 19 a dydd Mawrth 20 Gorffennaf 2027** yn cael eu dynodi yn ddiwrnodau HMS ar gyfer **pob** Ysgol a Gynhelir gan yr AALl. Cymerir y ddau ddiwrnod HMS sy'n weddill yn ôl disgresiwn pob ysgol unigol ar ôl ymgynghori'n briodol â staff. ***Y bwriad yw y bydd y Diwrnod HMS hyn yn cael eu cymryd naill ai ar ddydd Llun 19 a dydd Mawrth 20 Gorffennaf 2027 neu ar adeg arall er enghraifft ar ffurf sesiynau gyda'r hwyr.**

Bydd yr holl ysgolion ar gau ar **ddydd Llun 3 Mai 2027** ar gyfer Gŵyl Banc Calan Mai.

Dyddidau pwysig:

**Y Nedolig:**

Dydd Gwener 25 Rhagfyr 2026

**Y Pasg:**

Dydd Gwener y Groglith y Pasg 26 Mawrth & Dydd Llun y Pasg 29 Mawrth 2027

**Gwyliau Banc Mis Mai:**

Dydd Llun 3 Mai 2027 & Dydd Llun 31 Mai 2027

# Dyddiadau Gwyliau Ysgol 2027/2028

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd | Nifer Y Diwrnodau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Begin | End | | |
| Hydref 2027 | Mercher 1 Medi 2027 | Llun 25 Hydref 2027 | Gwener 29 Hydref 2027 | Gwener 17 Rhagfyr 2027 | 73 |
| Gwanwyn 2028 | Mawrth 4 Ionawr 2028 | Llun 21 Chwefror 2028 | Gwener 25 Chwefror 2028 | Gwener 7 Ebrill 2028 | 64 |
| Haf 2028 | Llun 24 Ebrill 2028 | Llun 29 Mai 2028 | Gwener 2 Mehefin 2028 | Iau 20 Gorffennaf 2028 | 58 |
| | | | | CYFANSWM | **195** |

ii) Bydd **dydd Mercher 1 Medi 2027** yn cael ei ddynodi'n ddiwrnod HMS ar gyfer pob Ysgol a Gynhelir gan yr AALl. Cymerir y pedwar diwrnod HMS sy'n weddill yn ôl disgresiwn pob ysgol yn unigol ar ôl ymgynghori'n briodol â staff.

Bydd yr holl ysgolion ar gau **ddydd Llun 1 Mai 2028** ar gyfer Gŵyl Banc Calan Mai.

Dyddiadau pwysig:

**Y Nadolig**

Sadwrn 25 Rhagfyr 2027

**Y Pasg:**

Dydd Gwener y Groglith 14 Ebrill 2028 & Dydd Llun y Pasg 17 Ebrill 2028

**Gwyliau Banc Mis Mai:**

Dydd Llun 1 Mai 2028 & Dydd Llun 29 Mai 2028

# Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

## Cylchlythyr

Rhifyn 62 Tymor Hydref 2025

**Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:**

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lansiwyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

**Sefydlwyd VSGA I;**

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda buddddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI T
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

**VGSA Management Committee 2024-26**

The Management Committee is comprised of elected Governors plus the two parent Governor Representative (one each from the Primary and Secondary Sectors)

| No | Name | School |
|---|---|---|
| 1 | Mr P Cate (Vice Chair) | Ysgol Gynradd Jenner Park |
| 2 | Mr J Duxbury | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant |
| 3 | Ms J Evans | Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Gladstone |
| 4 | Mr G Griffiths | Ysgol Gwaun y Nant & Ysgol Sant Curig |
| 5 | Mrs J Griffiths | Ysgol Gynradd Fairfield & Ysgol Gynradd Babyddol Sant Joseff |
| 6 | Cllr W Hennessey | Ysgol Gynradd y Rhws & Ysgol Gynradd Sain Helen |
| 7 | Mrs S Jenkins | Ysgol Gyfun St Cyres |
| 8 | Mr G Kemp | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Nicholas & |
| 9 | Dr C Lee | Ysgol Gyfun St Cyres |
| 10 | Cllr J Lynch-Wilson | Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr & Ysgol Gynradd South Point |
| 11 | Dr M Price (Chair) | Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn |
| 12 | Mrs G van der Burgt | Ysgol Gyfun Whitmore |
| 13 | Mrs T Vaughan-Taylor | Ysgol Gyfun y Bont-faen |
| 14 | Mr O Williams | Ysgol Sant Baruc |
| 15 | Cllr M Wilson | Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria |

Ymhorau swydd Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr (PGRs)

Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Cynradd– L Barrowclough- Ysgol Gynradd Llandochaul
Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Uwchradd– K Riddick – Ysgol Gyfun Whitmore

## Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

## Cylchlythyr

Rhifyn 62 Tymor Hydref 2025

### Uned Cymorth i Lywodraethwyr Bro Morgannwg

**E-bost: governors@valeofglamorgan.gov.uk**

**Manylion Cyswllt:**

**John Sparks**
**Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr a Chwynion Ysgolion**
**Ffôn: 01446 709106**
**E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk**

**Francesca Wright**
**Uwch Swyddog Cymorth i Lywodraethwyr**
**Ffôn: 01446 709125**
**E-bost: fwright@valeofglamorgan.gov.uk**

Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post: VSGA a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr Dysgu a Sgiliau Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU

